

Arian a fi



Adnodd newydd ar gyfer ysgolion cynradd i helpu disgyblion ddysgu am arian a chyllid.

Trosolwg

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn gan Fanc Lloegr, TES a Beano i ddarparu set ddeniadol o adnoddau i ysgolion i helpu disgyblion ysgolion cynradd y DU i ddysgu am arian mewn cyddestun byd go iawn. Gall dysgu am arian a chyllid fod yn anodd i blant, yn enwedig pan nad yw wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm. Mae'r cynnwys yn Money a fi yn defnyddio cymeriadau Beano adnabyddus a chynnwys rhyngweithiol iawn, gan gynnwys gemau a gweithgareddau sy'n gwneud y pwnc yn drosglwyddadwy ac yn hwyl. Gobeithiwn y bydd eich disgyblion nid yn unig yn dysgu llawer iawn o'r adnodd hwn ond hefyd ei fod yn rhoi hyder iddynt reoli arian nawr ac yn y dyfodol.

Wedi'i ysgrifennu gan athrawon cynradd profiadol, Banc Lloegr a Beano, mae'r adnoddau yma yn cynnwys:

- 12 gwrs ar ffurf PowerPoint
- cynlluniau gwrsi cysylltiedig hefo cysylltiadau i gwricwlwm y DU
- taflenni gwaith ac adnoddau y gellir eu lawr lwytho
- fideos o fewn y cyflwyniadau PowerPoint
- rhestr termau allweddol
- tocynnau gwerthuso gwrsi
- gemau at ddefnydd dosbarth.



Wrth wraidd pob gwrs mae cyflwyniad PowerPoint sy'n tynnu sylw at amcanion a deilliannau dysgu ynghyd a geiriau allweddol a manylion y wers. Yn ogystal, mae ffeiliau cysylltiedig i ddod â'r wers yn fyw sy'n cynnwys taflenni gwaith gwahaniaethol (her, her fwy a her mega), taflenni atebion, gemau a geirfa.

Ysgrifennwyd y cynnwys i gyd-fynd â chwricwla'r DU ac mae'n canolbwyntio ar ddysgu yn y meysydd canlynol ynghyd â'r Fframwaith Cynllunio Addysg Ariannol: -

Lloegr	ABCh, Mathemateg
G. Iwerddon	Mathemateg a Rhifedd
Yr Alban	Rhifedd a Mathemateg, Sgiliau Bywyd, Dysgu a Gweithio ac Astudiaethau Cymdeithasol
Cymru	ABCh, Mathemateg

(Yn Lloegr, mae'r dolenni ABCh yn berthnasol i Raglen Astudio Cymdeithas ABCh i'w cyflwyno o 2020, ond mae dolenni i Raglen Astudio 2017 hefyd wedi'u cynnwys).

Mae'r adnoddau wedi'u hachredu gan Young Money gan sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth gywir a chyfoes a'u bod yn ddeniadol a pherthnasol i bobl ifanc.



Arian a fi



Sut i ddefnyddio'r adnoddau

Dyluniwyd pob gwers i bara 45-60 munud, yn dibynnu ar faint y dosbarth a gwybodaeth flaenorol. Gellir dysgu'r gwersi mewn unrhyw drefn o fewn Cyfnod Allweddol neu lefel - ond yn ddelfrydol, byddai ysgolion yn symud ymlaen trwy'r gwersi, gan adeiladu ar ddysgu blaenorol, wrth i bobl ifanc symud trwy'r grwpiau blwyddyn. Mae cynlluniau gwersi yn tywys athrawon drwy'r gwersi ac yn tynnu sylw at ble gellir defnyddio syniadau ychwanegol neu dasgau gwahaniaethu. Maent hefyd yn cynnwys awgrymiad o amseroedd ar gyfer pob gweithgaredd, mae'r rhain at ddibenion arweiniad yn unig ac anogir athrawon i'w haddasu i adlewyrchu eu grwpiau dysgu. Darperir cyfeiriadau cwricwlwm penodol o fewn cynlluniau gwersi. Mae hefyd yn bosibl integreiddio'r gwersi hyn i waith dosbarth trawsgwricwlaidd ehangach sy'n seiliedig ar brosiectau.



Mae pob gwers yn cyflwyno geirfa newydd, sydd weithiau'n heriol, i ddisgyblion a cefnogir y dysgu gan gyfres o dasgau. Mae geirfa hefyd wedi'i chynnwys y gellir ei dosbarthu i gyfeirio ati.

Anogir athrawon i ddefnyddio'r Ticedi Gwerthuso i helpu i asesu dysgu ar ddiwedd pob gwers.

Cyfnod Sylfaen

- Gwers 1 - Popeth am arian
Cyflwyno arian, symbolau, newid a gwerthoedd

Cyfnod Allweddol 2 (is)

- Gwers 2 - Beth yw arian?
Esbonio pwysigrwydd arian ac arian cyfred
- Gwers 3 - Beth sy'n newydd gydag arian?
Cyflwyno gwahanol dulliau talu
- Gwers 4 - Beth alla i ei wneud gydag arian?
Addysgu'r gwahanol bethau gall disgyblion wneud â'u harian



Cyfnod Allweddol 2 (uwch)

- Gwers 5 - Cyflwyniad i fancio
Dysgu beth yw banciau a sut maent yn gwneud arian
- Gwers 6 - Beth yw Banc Lloegr?
Cyflwyno rôl Banc Lloegr
- Gwers 7 - Pam mae prisiau'n newid dros amser?
Archwilio cyflenwad a galw a'u heffaith ar newidiadau mewn prisiau
- Gwers 8 - Pam mae arian mor bwysig?
Archwilio penderfyniadau arian a'u heffaith
- Gwers 9 - Rheoli fy arian
Dysgu sut i gyllidebu'n llwyddiannus
- Gwers 10 - Sut alla i gadw fy arian yn ddiogel?
Deall sut i osgoi sgamiau
- Gwers 11 - Beth yw dyled?
Deall dyled yn ei holl ffurfiau
- Gwers 12 - Gwariant moesegol
Esbonio pwysigrwydd gwariant moesegol

